Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 19 Gorffennaf 2019
Members' e-briefing 19 July 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn chwilio am Swyddog Datblygu ar gyfer Prosiect Paratoi newydd. Bydd y prosiect yn datblygu set o adnoddau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal cymorth i bontio'n ddiogel o ofal a chyflawni sefydlogrwydd mewn llety.

Hyfforddiant a digwyddiadau

10.09.2019	Cyflwyniad i gefnogi Plant aPhobl Ifanc Trawsryweddol	Caerdydd
11.09.2019	"Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant i'r Person Dynodedig Ar Gyfer Amdiffyn Plant	Conwy
12.09.2019	"Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeithio'r plentyn a'u teulu/gofalwyr"	Caerdydd
18.09.2019	Ecsbloetio Llinellau Siral - Gangiau Cyffuriau a Chymru	Conwy

19.09.2019	"Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeithio'r plentyn a'u teulu/gofalwyr"	Y Rhyl
19.09.2019	LHDT a Datblygiad Plant	Conwy

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Agor ymgynghoriad ar ganllawiau diogelu drafft

Mae Llywodraeth Cymru wedi agor ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol.

Mae'r canllawiau drafft newydd wedi eu hanelu at unrhyw un sy'n cynllunio am blant neu'n gweithio gyda phlant i nodi ac atal camdriniaeth, amddiffyn plant, a bodloni anghenion plant sydd mewn perygl o gamdriniaeth.

Os hoffech chi ymateb i'r ymgynghoriad, cewch wneud hynny ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae fersiwn addas i bobl ifanc hefyd a fersiwn sy'n hawdd ei darllen.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar **07 Hydref 2019**.

Tyfu i fyny mewn tlodi yn y DU yn 2019



Mae Buttle UK wedi cyhoeddi adroddiad am dyfu i fyny mewn tlodi yn y DU.

Arolygodd Buttle fwy na 1200 o weithwyr cymorth plant i ddarganfod eu profiadau o weithio gyda phlant a oedd yn tyfu i fyny mewn tlodi.

Dangosodd yr adborth allweddol:

- Mae 60% o weithwyr cymorth yn gweld teuluoedd sy'n methu fforddio pethau fel bwyd, eitemau i'r cartref, tanwydd, mwy nag unwaith yr wythnos.
- Mae hanner y gweithwyr cymorth yn gweld plant sy'n cael eu bwydo brecwast neu ginio yn yr ysgol am fod teuluoedd yn methu fforddio eu bwydo eu hunain, mwy nag unwaith yr wythnos.
- Mae 48% o weithwyr cymorth yn gweld teuluoedd sy'n methu fforddio dillad ac esgidiau plant.

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i'r casgliad bod gweithwyr cymorth "wedi gweld cynnydd dychrynllyd mewn lefelau amddifadedd" ac yn annog gwleidyddion i "gynnig strategaethau a pholisïau mwy effeithiol i leihau tlodi plant yn y dyfodol."

Mae "What it is really like for plant growing up in poverty in UK in 2019" ar gael o wefan

Buttle UK.

Pwyllgor y Cynulliad yn agor ymchwiliad i Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi agor ymchwiliad i'r amrediad o ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Bydd hyn yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Mae EOTAS yn golygu addysg sy'n cael ei darparu i fodloni anghenion disgybl sy'n methu mynychu ysgol brif ffrwd. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael i blant sydd mewn perygl o dderbyn darpariaeth EOTAS, gan gynnwys o ganlyniad i waharddiadau o ysgolion prif ffrwd.

Maent yn dymuno gwybod hefyd pa gefnogaeth mae rhieni yn ei derbyn drwy'r broses EOTAS. Maent yn dymuno gwybod sut mae cyfraddau plant a phobl ifanc gydag anghenion arbennig yn amrywio, er enghraifft a oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, neu a ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, a pha effaith gallai hynny ei chael.

Bydd yr ymchwiliad hefyd yn trafod nifer o feysydd eraill, a gwelir y rhain yn llawn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymateb, cewch wneud hynny drwy'r ddolen uchod. Mae gennych tan **18 Hydref 2019**, i ddarparu tystiolaeth.

Coram Family and Childcare: bil gofal plant yn ystod gwyliau yng Nghymru yn ddwywaith cost gofal plant yn ystod y tymor

Mae Coram Family and Childcare wedi cyhoeddi eu harolwg blynyddol o gostau gofal plant yn ystod gwyliau, yr Arolwg Gofal Plant yn ystod Gwyliau 2019.



Mae'r arolwg yn edrych ar y newidiadau ers y llynedd mewn costau gofal plant yn ystod gwyliau, a'u cymharu â chostau yn ystod tymor yr ysgol, ledled y DU.

Yng Nghymru, cost gyfartalog gofal plant yn ystod gwyliau oedd £130, dwywaith cost clybiau ôl-ysgol yn ystod y tymor.

Yn ôl yr amcangyfrif, y gost gyfartalog oedd £778 am chwe wythnos lawn y gwyliau,

£486 yn fwy nag yn ystod tymor yr ysgol.

Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn adrodd nad oedd ganddynt ddigon o ofal plant gwyliau i'r holl rieni yn eu hardal sy'n gweithio amser llawn.

O'u cymharu â'r llynedd, roedd cost gyfartalog gofal plant yr wythnos yng Nghymru wedi codi 2%. Roedd costau gofal plant Cymru yn is na rhai Lloegr, a'r gost i Brydain Fawr gyfan, ond nid yn is na'r Alban.



Gweledigaeth pum mlynedd am ofal mamolaeth yng Nghymru

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, wedi cyhoeddi'r cynllun am Ofal Mamolaeth yng Nghymru am y pum mlynedd nesaf.

Mae pum egwyddor graidd gan y cynllun, sy'n pennu cyfeiriad ymrwymiadau, camau gweithredu cenedlaethol a rhai sefydliadol neu fyrddau iechyd sydd yn yr arfaeth.

Y pum egwyddor yw:

- Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Teulu - Bydd menywod yn derbyn gofal personol, wedi ei gynllunio mewn partneriaeth â nhw ac a fydd yn adlewyrchu eu dewisiadau a'u hanghenion iechyd
- Gofal Diogel ac Effeithiol - "[bydd] llai o risg, ymyrraeth ac amrywiad lle bynnag y bo modd"
- Parhad o ran Gofalwr - Bydd pob menyw yn cael bydwraig benodedig, ac obstetregydd penodedig, lle bo angen.
- Timau Amlbroffesiwn Medrus - bydd gofal yn dod oddi wrth dimau amlbroffesiwn a bydd gan fenywod fynediad i wasanaethau arbenigol.
- Gwasanaethau o Ansawdd Cynaliadwy - bydd gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn cael eu dylunio i fod o'r ansawdd gorau posibl ac er mwyn i lefel yr ansawdd gael ei chynnal.

Mae Gofal mamolaeth yng Nghymru: gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer y dyfodol (2019-2024) yn mynd i mewn i lawer mwy o fanylion yng nghorff yr adroddiad. Mae'n pennu pa gamau a gaiff eu cymryd yng Nghymru i roi'r egwyddorion hyn ar waith.

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

Children in Wales
Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales is looking for a Development Officer for the new Getting Ready Project. The project will develop a set of resources support care experienced young people to safely transition from care and achieve housing stability.

Training and events

10.09.2019	An Introduction to supporting Transgender Children and Young People	Cardiff
11.09.2019	"Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Person for Child Protection	Conwy
12.09.2019	"Understanding Autism and how it can impact on a child and family/carers"	Cardiff
18.09.2019	County Lines Exploitations -Gangs, Drugs and Wales	Conwy
19.09.2019	"Understanding Autism and how it can impact on a child and family/carers"	Rhyl
19.09.2019	LGBT & Child Development	Conwy

The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click here for more information about our members' events and training.



Consultation open on draft safeguarding guidance

The Welsh Government has opened a consultation on draft guidance on safeguarding children from child sexual exploitation.

The new draft guidance is aimed at anyone planning for or working with children to identify and prevent abuse, protect children, and meet the needs of children who are at risk of abuse.

If you would like to respond to the consultation, you can do so on the Welsh Government's website. There is also a young person friendly version and an easy to read version available.

The consultation closes on **07 October 2019**.

Growing up in poverty in the UK in 2019



Buttle UK has published a report into growing up in poverty in the UK.

Buttle surveyed over 1200 child support workers to find out their experiences working with children who were growing up in poverty.

The key feedback showed:

- 60% of support workers are seeing families who can't afford things like food, household items, fuel, more than once a week.
- Half of support workers are seeing children fed breakfast and or dinner at school because families cannot afford to feed themselves, more than once a week.
- 48% of support workers are seeing families unable to afford children's clothes and shoes.

The report goes on to conclude that support workers "have seen an alarming increase in levels of destitution" and urges politicians to "offer more effective child poverty reduction strategies and policies in future."

"What it is really like for children growing up in poverty in UK in 2019" is available from Buttle UK's website.

Assembly Committee opens inquiry into Education Otherwise than at School

The National Assembly for Wales' Children, Young People and Education Committee has opened an inquiry into the range of Education Otherwise than at School (EOTAS) provision. This will include Pupil Referral Units.

EOTAS means education that's provided to meet the needs of a pupil who can't attend mainstream school. Local authorities are legally responsible for providing these services.

The Committee wants to know what support is available for children who are at risk of being provided with EOTAS, including through exclusions from mainstream schools.

They also want to know how well parents are supported through the EOTAS process. They want to know how the rates of children and young people with particular needs vary, for example if they have special educational needs, or if they are eligible for free school meals, and what effect that might have.

The inquiry will also cover a number of other areas, and these are in full on the National Assembly for Wales's website.

If you are interested in responding, you can do so at the link above. You have until **18 October 2019**, to provide evidence.

Coram and Family Childcare: Welsh holiday childcare bill twice that of term time childcare

Coram Family and Childcare have published their annual survey of holiday childcare costs, the Holiday Childcare Survey 2019.



The survey examines the changes in holiday childcare costs from last year, and compared with term time costs, across the UK.

In Wales, the average holiday cost of childcare was £130, twice that of after-school clubs during term time.

The average estimated cost was £778 for the whole six weeks of the holiday, £486 times more than term time.

Local authorities in Wales were also reporting that they did not have enough holiday childcare for all the parents in their area who work full time.

Compared to last year, Wales' average childcare cost per week had risen 2%. Wales' child care costs were lower than England, and the cost for the whole of Great Britain, but not lower than Scotland.

A five year vision of maternity care in Wales

Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething AM, has published the plan for Maternity care in Wales for the next five years.

The plan has five core principles, which direct the commitments, national actions and organisational or health board actions that have been planned.



The five principles are:

- Family Centred Care - women will receive personalised care, reflecting their needs and choices
- Safe and Effective Care - "risk, intervention and variation [will be] reduced wherever possible"
- Continuity of Carer - All women will have a named midwife, and a named obstetrician, where needed.
- Skilled Multi-professional teams - care will come from multi-professional teams and women will have access to specialist services.
- Sustainable Quality Services - maternity services in Wales will be designed so that they are of the highest possible quality and so that level of quality can be maintained.

Maternity care in Wales: a five year vision for the future (2019 -2024) goes into much greater detail in the body of the report. It sets out what actions will be taken in Wales to put these principles in place.

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.